

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd yn rhithiol dros y system 'Zoom', Nos Fawrth, 14 Rhagfyr 2021 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

1. Presennol: Dafydd Thomas (Cadeirydd) – Nebo, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, OP Huws – Llanllyfni, Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Erfyl Williams, Justin Davies – Penygroes, Peter Bridges, Sian Dafydd, Gareth Jones – Talysarn. Cynghorydd Judith Humphreys. Gwadd – Sion Bryn Roberts, Gwasanaeth Ieuencid Cyngor Gwynedd.

Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dylan Herbert, Harry Owen, Heledd Gwilym a Ffion Jones. Ni dderbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Dilwyn Lloyd a Craig ab Iago.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Dafydd Thomas a rhoddwyd croeso arbennig i Sion Bryn Roberts.

2. Datgan Buddiant: Dim i'w ddatgan.

3. Gwadd – Sion Bryn Roberts : Rhoddwyd pethau drosodd i Bryn i egluro beth yr oedd am ei drafod. Esboniodd fod trafodaethau wedi bod yn y gorffennol gyda CC Llanllyfni i ddechrau Clwb Ieuencid yn Dyffryn Nantlle ac felly roedd yn awyddus i drafod hyn ymhellach ac i roi amcan i bawb o gostau a'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer rhedeg clwb. Adroddodd y buasai rhedeg clwb am 30 noson y flwyddyn (sef unwaith yr wythnos) yn costio oddeutu £8400 y flwyddyn, a buasai hyn yn cynnwys y lleoliad a hefyd 3 aelod o staff i gynnal y nosweithiau. Un broblem sydd yma yw nad oes lleoliad ar gael i redeg hyn ac felly soniodd am beth y mae Wrecsam wedi ei wneud sef cael container a'i ddefnyddio fel ystafell i redeg y clwb. Dywedodd fod grantiau ar gael ar gyfer prosiectau fel hyn ac y buasai container o'r fath yn costio oddeutu £18,000. Trafodwyd hyn a gofynnodd Dafydd a oes posib o gwbl defnyddio un o ysgolion y Dyffryn, dywedodd Judith bod hyn wedi ei drafod o'r blaen ac nad oedd yn bosib, ond mae hi yn fodlon holi eto rhag ofn fod pethau wedi newid. Soniodd Dafydd hefyd am y Ganolfan Iechyd a Lles sydd yn mynd i gael ei adeiladu ym Mhenygroes ac efallai y buasai yna Neuadd neu ystafell yno y buasai yn bosib ei defnyddio. Holodd Erfyl os mai'r Cyngor Cymuned fuasai yn gyfrifol am y costau i gyd – IA. Dywedodd OP Huws fod trafodeath wedi bod o'r blaen ynglŷn â chael container a'i osod yn y maes parcio ger Gorsaf yr Heddlu a bod trafodaeth wedi bod i gael sefydliadau eraill i fewn i'r prosiect ac a fuasai yn defnyddio yr adeilad hefyd. Holodd Ceri os oes yna gynllun 'Community Benefit' yn bodoli gan fod yr stad tai newydd yn cael ei adeiladu ym Mhenygroes – dywedodd Judith y buasai yn edrych fewn i hyn. Holodd Dafydd pwy fuasai yn gyfrifol am gael staff ar gyfer hyn – y Gwasanaeth Ieuencid yn gyfrifol am gael y staff ond y Cyngor Cymuned yn eu talu. Peter yn holi os yn mynd am y grant a fuasai posib i sefydliadau eraill gael defnyddio y container – mi fysa hyn yn bosib. Holwyd os y buasai gan rywun o 'Youth Pen' ddiddordeb i wneud rhywbeth fel hyn? Judith am holi. OP Huws yn holi os oes cyllideb ar gael os am symud ymlaen gyda hyn – dywedodd Gareth y buasai yn rhaid edrych ar y gyllideb yn nes at ddiwedd y flwyddyn ariannol i weld sut y bydd pethau. Gofynnwyd i Bryn gael ffigyrau ac ati ac ar ôl derbyn hyn ganddo yna ei drafod ymhellach. Diolchwyd i Bryn am ei amser.

4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 9 Tachwedd 2021: Cynnigiodd Barry Bracegirdle ac eiliodd Ceri Owen fod y cofnodion yn gywir a cytunodd pawb.

5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd: Dysgwyr y Dyffryn – OP Huws eisiau pennu dyddiad ar gyfer i'r grŵp gyfarfod. Hefyd eisiau cael gwybod faint o arian sydd wedi ei wario yn Nyffryn Nantlle ar hyn a bod angen Menter Iaith i Ddyffryn Nantlle. Cynigiodd OP Huws hyn ac eiliodd Barry Bracegirdle a cytunodd pawb. Cytunwyd felly i ddrafftio llythyr am hyn ac i gyfarfod yn mis Ionawr. Cynnigwyd 18 Ionawr fel dyddiad i gyfarfod a cytunwyd. **Golau Nadolig** – y golau wedi eu gosod ac yn edrych yn dda. Diolchodd Gwyndaf i Dafydd am ei waith gyda hyn (7.40 - Justin cyrraedd y cyfarfod). Esboniodd Dafydd hefyd y bydd y bracedi baneri Bro Lleu yn cael eu ail-osod pan fydd y contractwyr yn tynnu y golau nadolig i lawr ac yn eu gosod fel na fydd yn rhaid eu tynnu eto a bod yna le i fracedi y golau a rhai y baneri. Y clerc i ymateb i ebost Ben i esbonio hyn.

6. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir: Roedd pawb wedi derbyn adroddiad a oedd wedi ei pharatoi gan Judith Humphreys. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad a diolchwyd i Judith am ei gwaith.

7. Taflen Ariannol a Chyllid: Roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb hyd at 28 Tachwedd 2021. Roedd is-bwyllgor cyllid wedi ei gynnal ar 8 Rhagfyr ac adroddodd Dafydd beth a drafodwyd. Rhoddwyd cynnig gan Dafydd i'r pwyllgor llawn ac yn dilyn o'r is-bwyllgor fod y praesept yn aros yr un fath am eleni sef £50,000. Eiliodd Barry ac Erfyl a cytunodd pawb i hyn. Esboniwyd bod ffensio cae Macpela wedi ei drafod a bod dau bris wedi ei dderbyn yn dilyn o hysbysebu y tendr - un am £3582 a llall am £2547 (y ddau yn cynnwys TAW). Holodd OP Huws beth yw y rhent mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn ei godi am y cae - £125 y flwyddyn. Hefyd dywedwyd bod y postiau ffensio wedi eu gwarant am 15 mlynedd. Os ddim yn ffensio a ddim yn ei rentu allan yna buasai yna gostau blynyddol o dorri y cae. Holodd Peter os oedd yna ffordd rhatach o gwmpas hyn ac y buasai yr arian hwn yn mynd ymhell ar gyfer prosiectau i ieuencid yr ardal. Cynnigiodd Sian y dylid holi am bris torri y cae yn flynyddol. Ceri holi os fisa yn bosib codi rhent y cae? Cynnigiodd OP Huws efallai y buasai yn syniad ei gynnig allan i rywun ei dorri fel silwair. Barry yn cynnig y dylid cael pris am ei dorri. Dafydd yn cynnig y buasai yn syniad gadael hyn a gweld beth a ddaw pan fydd y gontract torri mynwentydd yn mynd allan. Cytunodd pawb i adael hyn am nawr a gweld beth ddaw o'r gontract torri llwybrau a mynwentydd.

8. Dysgwr Y Dyffryn: Hyn wedi ei drafod yn barod ym mhwynt 5.

9. Parc Sglefrio a Trac BMX Talysarn – (ymateb i gwestiynau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf) – yn anffodus Nia heb glywed yn nôl ers gyrru atynt a Sian heb glywed dim chwaith. Penderfynwyd gadael hyn hyd nes bydd rhywbeth yn dod nôl ganddynt.

10. Canolfan Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle: Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd rhywun o Grŵp Cynefin i'r cyfarfod nesaf i roi adroddiad ar hyn. Nia i drefnu.

11. Llwybrau a Mynwentydd: Roedd is-bwyllgor Llwybrau a Mynwentydd wedi ei gynnal ar 8 Rhagfyr ac adroddodd Dafydd yn nôl i'r pwyllgor llawn am beth a drafodwyd. Diolchodd Dafydd i bawb am eu sylwadau ar y drafft o'r gontract yr oeddynt wedi ei dderbyn. Roedd wedi gwneud y newidiadau a awgrymwyd a pawb wedi cael ail-gyfle i edrych dros y gontract. Gyda nifer o weithiau y mae Mynwent Eglwys Sant Rhedyw yn cael ei dorri cynnigiodd Gwyndaf y dylai gael ei thorri yr un faint o weithiau a'r mynwentydd eraill yn enwedig ar ôl y cwynion a dderbyniwyd y llynedd. Eiliodd Barry y cynnig hwn a cytunodd pawb. Hefyd cytunwyd yn unfrydol y dylai dorriadau gael ei ychwanegu ar gyfer Sul y Mamau a Sul y Tadau ar gyfer pob mynwent. Barod nawr i hysbysebu y gontract gyda dyddiad cau o 31 Ionawr. Nia i holi Alwen lle y cafodd ei hysbysebu y tro diwethaf a hefyd ei hysbysebu ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned. Diolchodd Dafydd i Sian am ei chymorth gyda rhoi y

contract at ei gilydd a diolchodd pawb i Dafydd am ei waith caled. Soniodd Gwyndaf nad oedd mynwentydd y cyngor cymuned wedi eu cofrestru ar y Gofrestrau Tir ac yn awgrymu y dylai hyn gael ei wneud. Cytunodd pawb a Nia i edrych fewn i weld lle mae'r dogfenau pwrpasol ar gyfer y mynwentydd ac yn y blaen.

12. Ceisiadau Cynllunio:

- C21/1076/22/DT – Ael Y Bryn, Ffordd Haearn Bach, Penygroes – dim gwrthwynebiad
- C21/0911/22/LL – Cymru Fudd, Heol Y Dwr, Penygroes – dim gwrthwynebiad
- C21/1155/22/YA – Cae ar ddaliadaeth Fferm Taldrwst sydd yn rhedeg gyfochrog a Lon Tyddyn Agnes – dim gwrthwynebiad.

13. Materion Pentrefi: Penygroes – Diolchodd Barry fod y llwybyr dros y ffordd i'r co-op wedi ei dorri a hefyd wedi ei lanhau. Y safle bws dros y ffordd i'r co-op – bellach mae pedwar paen wedi ei dorri arno ac maent yn costio £1200 yr un i'w trwsio, felly ar hyn o bryd gweld dim pwrpas eu trwsio gan mai ond cael eu dinistrio eto wna nhw. Mae Barry wedi siarad gyda Judith i holi Ffrindiau Penygroes i gyfranu at gael CCTV yno a hefyd efallai yn syniad holi co-op ac Adra i gyfrannu hefyd. CCTV yn mynd i gostio oddeutu £4500 am bedwar camera. Erfyl yn dweud bod llawer o bobl yn cwyno am lawer o bethau ynglŷn â Meddygfa Corwen House. Yn aml iawn dim ond un meddyg sydd yno. Cleifion ddim yn derbyn galwad yn nôl gan y doctor am ddyddiau. Un person wedi disgwyl dros ddwy awr am brescriptiwn a wedi mynd oddi yno yn y diwedd hebdo. Rhai oedranus ddim yn hapus am orfod disgwyl tu allan i'r feddygfa ym mhob tywydd. Teimlo fod yr adeilad yn rhy fach a hefyd mewn safle peryglus i bobl orfod sefyll tu allan. Cynnigwyd i Nia ddrafftio llythyr i yrru i Betsi Cadwaladr am y pryderon hyn a hefyd gofyn lle maent arni gyda y Ganolfan Iechyd a Lles newydd.

Talysarn – Holodd Gareth i Peter os oedd wedi clywed unrhyw beth pellach ynglŷn â'r gwyn gafodd Sian am y torri coed a'r llanast yn Gloddfa Glai. Esboniodd Sian fod y brydles dal i fod yn enw y Cyngor Cymuned felly buasai yn raid i'r CPD gael caniatad gan y CC cyn cario allan unrhyw waith yno. Cynnigiodd Sian y dylid cysylltu gyda Cadeirydd y CPD i esbonio hyn. Esboniodd hefyd fod y brydles yn y broses o gael ei newid. Nia i ddrafftio llythyr i gadeirydd y CPD yn esbonio. Peter gofyn oes posib cysylltu gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r gwair a pridd oddi ar ochr ffordd wrth ddod fewn i'r pentref sydd wedi dod i'r ffordd ac yn blocio y draen – Nia i gysylltu gyda nhw. Y ffens goed wedi torri wrth y llwybr sydd dod o Benygroes fewn i Talysarn. **Llanllyfni** – yr hen ffordd rhwng Bryn Teg a Graianfryn eisiau cael ei dorri – Nia i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Hefyd car wedi mynd trwy'r giât yno a wedi ei malurio, eisiau cysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. Tyllau drwg yn y ffordd ar y groesffordd ger Fron Deg – Nia i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. **Nebo** – y lonydd yn dirywio yn ofnadwy – Lon Allt Pant y Gôg a Lon Tŷ Cerrig tyllau mawr wedi ymddangos ag angen i Cyngor Gwynedd ddod i edrych a trwsio y ffyrdd – Nia i gysylltu.

14. Gohebiaeth: Roedd pawb wedi derbyn y gohebiaeth ymlaen llaw i'r cyfarfod a rhoddwyd cyfle i bawb godi unrhyw fater.

Trafodwyd fod llawer o ohebiaeth yn cael ei dderbyn yn ystod y mis ac er bod angen ei rannu gyda pawb cynnigiodd Dafydd y dylid eu nodi ar yr agenda ond nad oes angen mynd trwy pob un, ond os oes rhywun eisiau trafod unrhyw un ohonynt yna iddynt godi hyn a bydd yn cael ei drafod. Cytunodd pawb gyda hyn yn unfrydol.

- Cyngor Gwynedd – Adroddiad Adolygu Drafft – Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn – ebost 05/11/21
- Senedd Cymru – Y Pwyllgor Llywodraeth Lleol a Thai – Ymgynghoriad: Ymchwiliad i ail gartrefi – ebost 07/11/21
- UnLlais – Lansio fframwaith Cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth yng Nghymru – ebost 11/11/21
- UnLlais – Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunan ddarpar– ebost 15/11/21
- UnLlais – Fforwm Natur – Pethau Bychain – ebost 15/11/21
- Cyngor Cymuned Llandegai – Llythyr i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd am ddiffyg ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd – ebost 17/11/21
- Rhian George – Ail rownd grant cynlluniau bwyd – ebost 17/11/21
- UnLlais – Ymgyrch Gadewch Oilion Pawennau yn unig – ebost 22/11/21
- UnLlais – Llythyr gan Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd – Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol – ebost 24/11/21
- UnLlais – Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr – ebost 24/11/21
- Kim Graham, Shared Assets – Fedrwn ni eich helpu chi i sefydlu fferm gymunedol yn eich ardal? – ebost 25/11/21
- Carwen Davies, Credydau Amser Tempo Cymru – Cyflwyniad, gwybodaeth a chais am alwad Teams ogydd – ebost 26/11/21

16. Materion Ariannol:

- Tom James Construction - £2766.26+553.25(TAW)= £3319.51. Y 10% oedd yn weddill i'w dalu am y gwaith yn Mynwent Macpela.
 - Lite Lighting - £5255.+1051(TAW) = £6306.00. Golau nadolig Penygroes
 - R J Electrics - £2188.16 + 437.63 (TAW) = £2625.79. Gosod golau nadolig Penygroes
 - The Poppy Appeal - £40.00 – torchau Sul Y Cofio
 - Dylan Evans (Nebo) - £60.00 – coed Nadolig Talysarn a Nantlle
 - Nia Jones £110.91 – golau nadolig ar gyfer Talysarn, Nantlle, Nebo a Llanllyfni
 - Nia Jones £10.20 – llyfr stampiau dosbarth 1af
 - Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngrwyd Rhagfyr 2021
 - Nia Jones - £14.39 Zoom Rhagfyr 2021
- Cytunwyd i dalu rhain i gyd.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.